

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR YNG NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 25AIN O FEDI 2017 YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Elfed Williams, Hywel Davies, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Jill Evans, Iona Edwards-Jones, Iwan Jones, Stanley Williams a Falmai Evans.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

A. Cynghorwyr Elfed Williams a Philip Williams ar eitem 6 isod.

B. Philip Williams ynglŷn ar gais cynllunio yn eitem 10 isod.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 31ain o Orffennaf 2017 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd adroddiad oddi wrth SCCH Lucy Green ynglŷn ar broblemau a chodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor yn Saron. Penderfynwyd trafod yr ymateb ymhellach yn cyfarfod nesaf y Cyngor pan fydd yna ychwaneg o aelodau'r Cyngor yn bresennol yn y cyfarfod.

B. Mae Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych am wellau'r arwyddion diogelwch ar y ffordd rhwng Ysgol Pant Pastynog a'r Safle Maes Chwarae ym Mhrion.

C. Nid mae'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn cytuno bod y ffordd rhwng Llanrhaeadr a Prion yn ddigon ddrwg i gael wyneb newydd yn y flwyddyn ariannol bresennol ac mae'r Adran yn dal i archwilio'r cyflwr y ffordd ar gyfer unrhyw sylw at y flwyddyn ariannol nesaf y Cyngor Sir.

D. Bydd y Cynghorydd Sir Ddinbych Huw Hilditch Roberts, Aelod Arweiniol dros Addysg, yn mynychu'r cyfarfod mis Tachwedd y Cyngor i drafod Ysgolion Bro Cinmeirch ac Ysgol Pantpasynog.

E. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r cais cynllunio i godi estyniad deulawr a chael gwared ar dy wydr presennol ac estyniad to fflat yn Daflyn, Gernant, Llanrhaeadr.

5. CYFETHOL AELOD I LENWI'R SEDD WAG Y CYNGOR.

Derbyniwyd yr aelodau wybodaeth oddi wrth ddau ymgeisydd i lenwi'r un sedd wag sydd yn bodoli ar y Cyngor, sef Geraint Jones o Llanrhaeadr a Stuart McFarlane o Saron.

Pleidleisiwyd yr aelodau yn unfrydol i gyfethol Geraint Jones i lenwi'r sedd wag ar y Cyngor.

6. CYMDEITHAS CADWRAETH LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH.

Gan fod y Cynghorwyr Elfed Williams a Philip Williams yn datgan diddordeb yn yr eitem, penderfynwyd trafod Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

7. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £14,893.86.

B. Derbyniwyd ail ran o'r precept y Cyngor am 2017/18 - £3,960.00.

C. Taliadau:-

1. Capel Y Pentre', Llanrhaeadr am ddau gyfarfod cyhoeddus y Cyngor - £40.00.

2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2017 - £405.90.

3. Treth Gyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2017 - £101.60.
 4. Cymorth Cynllunio Cymru - cwrs hyfforddi ar geisiadau cynllunio ar 28ain o Fedi 2017 i ddau aelod (Cynghorwyr Bari Evans ac Elfed Williams) - £70.00.
 5. Celtic Dreams Ironwork am y ffens newydd o flaen Nant-y-Felin, Llanrhaeadr - £780.00.
- D. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Dr Nicky Davies ar ran Pwyllgor Rholi'r Adnoddau Cymunedol, Llanrhaeadr am roddion y Cyngor Cymuned yn ddiweddar.

8. CYNLLUNIO SAFLE BRYN MORFYDD, LLANRHAEADR.

Yn dilyn sylwadau'r Cyngor Cymuned ar y cyn cais cynllunio safle'r Bryn Morfydd, Llanrhaeadr i Gadnant, ac yn dilyn cyfarfod cyhoeddus yn Capel-y-Pentre, Llanrhaeadr ar 14eg o Awst 2017, y cam nesaf yw disgwyl am i gais cynllunio llawn trwy Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych.

9. CYNLLUNIO SAFLE MAES CARAFANAU CAE'R MYNYDD, SARON.

Yn dilyn cyfarfod safle yn safle Maes Carafanau Cae'r Mynydd yn Saron ar 7fed o Fedi 2017, derbyniwyd gwybodaeth bod y perchennog gan hyd at 30ain o Fedi 2017 i roi cais cynllunio newydd i'r gwaith sydd wedi cael ei gychwyn ar y safle.

10. CAIS CYNLLUNIO.

Codi estyniad i gefn yr annedd yn Yr Hen Dy Blismon, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

11. GOHEBIAETH.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymgynghoriad ar Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Cytundeb Darparu Drafft ar gyfer CDLI Newydd 21 Awst 2017 hyd 20 Hydref 2017.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych yng ngalwad am safleoedd posibl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

C. Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gan gyflwyniad ar yr arolwg o'r trefniadau etholiadau ar gyfer Sir yn Ninbych yn Swyddfa'r Sir, Rhuthun ar 17 Hydref 2017 am 6.00 p.m.

D. Derbyniwyd hysbyseb Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ffyrdd sydd ar gau dros dro ym Mheniel yn ystod rhan o Hydref 2017.

E. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Nerys Harries o Lanrhaeadr ynglŷn ar broblem llwybr troed sydd yn dal yn bodoli tu ôl i Cae'r Felin, Llanrhaeadr. Penderfynwyd y Clerc hysbysu Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar broblem.

F. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

12. MATERION BRYN O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Penderfynwyd y Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

1. Teiars yn dal yn bodoli ar ffordd gefn Bryn Morfydd yn Llanrhaeadr.
2. Ffordd Y Glyn yn Llanrhaeadr eisiau wyneb newydd.

B. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ar ganlynol:-

1. Perchnogion Llwyn y Rhos, Llanrhaeadr eisiau cysylltiad i'r carthffosydd cyhoeddus y pentref.
2. band eang araf yn y gymuned.

13. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 30ain o Hydref 2017 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.